# CANOLFAN MILENIWM CYMRU
# POLISI AMGYLCHEDDOL A CHYNALIADWYEDD

Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn cydnabod yr argyfwng hinsawdd a'r brys o ran heriau amgylcheddol a chymdeithasol, sy'n golygu bod yr angen i weithredu yn gryfach nag erioed.

Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn hynod bwysig i ni ac mae'n un o'n blaenoriaethau strategol. Rydyn ni eisoes yn gwneud cynnydd gyda'n llwyfan ynni solar Donald Gordon, y cyntaf ym Mhrydain. Ein nod yw bod yn sefydliad carbon sero net erbyn 2035.

## YR HYN RYDYN NI'N EI WNEUD

Rydyn ni wedi pennu targedau sero net sy'n seiliedig ar wyddoniaeth ar gyfer ein sefydliad yn unol â menter Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, gyda chynllun manwl i gyrraedd yno.

**Ein nod yw:**

- Bod yn sero net mewn allyriadau Cwmpas 1 a 2 erbyn 2030
- Bod yn sero net mewn allyriadau Cwmpas 3 erbyn 2035

**Sut y byddwn ni'n cyflawni hyn:**

Byddwn yn anelu i gyrraedd ein targedau ar draws pedwar maes allweddol:

- Adeiladau ac ystadau
- Perfformiadau a chelfyddydau gweledol
- Gweithwyr ac ymwelwyr
- Gweithgarwch masnachol

## ADEILADAU AC YSTADAU

**Ein nod**

Gan weithio gyda'n partneriaid a'n cyflenwyr, byddwn yn lleihau'r allyriadau o'n hadeiladau i sero cyn gynted ag y bydd technoleg yn caniatáu.

**Beth ydyn ni wedi'i wneud hyd yma?**

- Rydyn ni wedi gosod 720 o baneli solar ar ein to gan arbed mwy na 50 tunnell o garbon y flwyddyn, sy'n cyfateb i dalu'r gost o bweru ein holl berfformiadau llwyfan a gwresogi ac oeri ein theatr bob blwyddyn
- Rydyn ni wedi disodli dros 70% o hen oleuadau aneffeithlon gyda bylbiau LED dros lawer o'r safle, gyda chynlluniau i barhau i newid y goleuadau sy'n weddill
- Rydyn ni wedi cyflwyno system ddosio i'n trefn lanhau i ddileu'r angen am boteli plastig. Mae cemegau'n cael eu dosbarthu mewn pecynnau cynaliadwy a'u cymysgu ar y safle
- Ar ôl 19 mlynedd gyda'n darparwr presennol rydyn ni wedi newid ein cyflenwyr gwastraff i sicrhau bod ein targedau gwastraff i safleoedd tirlenwi yn cael eu cyrraedd
- Rydyn ni wedi gosod cap ar dymheredd ein holl ystafelloedd cyfarfod a swyddfeydd i wneud arbedion amgylcheddol ac ariannol
- Rydyn ni wedi newid ein System Rheoli'r Adeilad sy'n caniatáu i ni gael rheolaeth ragweithiol ar ynni
- Rydyn ni'n falch o gael cefnogi Rhwydwaith Gwres Ardal Caerdydd Werddach a byddwn yn cysylltu â'r rhwydwaith yn 2024
- Rydyn ni'n caffael ein trydan a'n nwy am bris gwell na gwerth y farchnad ac yn monitro ein defnydd yn ofalus drwy gydol y flwyddyn
- Rhaid i unrhyw offer newydd rydyn ni'n ei brynu fod â sgôr ynni well na'r offer blaenorol, sy'n golygu ein bod yn gwella ein defnydd o ynni yn barhaus
- Rydyn ni wedi ailgylchu 70% o'n dodrefn ar ôl cwblhau ein swyddfeydd newydd drwy newid y byrddau a gorchuddion cadeiriau yn lle prynu dodrefn newydd

**Beth yw ein targedau nesaf?**

Erbyn 2025:

- Bydd gostyngiad o 50% mewn allyriadau carbon o'n hadeiladau
- Bydd gostyngiad o 20% yn ein defnydd o ddŵr
- Bydd gan ein deg prif gyflenwr hefyd dargedau lleihau carbon sy'n seiliedig ar wyddoniaeth

## PERFFORMIADAU A CHELFYDDYDAU GWELEDOL

### Ein nod

Byddwn yn symud i ddull carbon sero net i lywio penderfyniadau rhaglennu o safbwynt gweithredol a sicrhau bod cyfran sylweddol o'n cynnwys yn canolbwyntio ar un neu fwy o elfennau cynaliadwyedd.

### Beth ydyn ni wedi'i wneud hyd yma?

- Roedd thema hinsawdd gan ein gweithgarwch haf yn 2023
- Rydyn ni wedi dechrau asesu ôl troed carbon ein harddangosfeydd
- Rydyn ni'n ailddefnyddio ein setiau ac yn cefnogi yn y gwaith o'u hailgylchu lle bo modd er mwyn osgoi eu gwaredu

### Beth yw ein targedau nesaf?

Erbyn 2025:

- Bydd 50% neu fwy o'n cynyrchiadau neu ein harddangosfeydd celfyddydau gweledol yn canolbwyntio ar thema cynaliadwyedd
- Bydd rhan olaf unrhyw ddanfoniadau a gawn yn cynnwys dim allyriadau

## GWEITHWYR AC YMWELWYR

### Ein nod

Byddwn yn gosod cynaliadwyedd wrth wraidd penderfyniadau ynghylch sut rydyn ni'n gweithredu ac yn cynnwys ein gweithwyr a'n hymwelwyr mewn diwylliant o gynaliadwyedd drwy ein rhaglenni a'n gweithgarwch. Wrth i Genhedlaeth Y amlinellu strategaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd fel ffactorau allweddol wrth ddewis eu cyflogwr nesaf, mae hon yn elfen hanfodol o sut rydyn ni'n ymgysylltu â gweithlu'r dyfodol.

### Beth ydyn ni wedi'i wneud hyd yma?

- Rydyn ni wedi cyflwyno cwpanau a chyllyll a ffyrc compostadwy yn ein bariau a'n caffis
- Rydyn ni wedi datblygu modiwl e-ddysgu cynaliadwyedd, a fydd yn cael ei gyflwyno i bob aelod o staff ei gwblhau
- Rydyn ni wedi cydweithio â'r darparwr gwastraff bwyd Too Good To Go i leihau ein gwastraff bwyd ar ddiwedd pob diwrnod
- Rydyn ni wedi cymryd rhan mewn partneriaeth gymdeithasol gyda chwmni diogelwch lleol ym Mae Caerdydd i annog cyflogaeth yn y gymuned. Mae pob aelod o'r tîm yn cerdded i'r gwaith.

### Beth yw ein targedau nesaf?

Erbyn 2030:

- Rydyn ni'n anelu at gael statws Di-blastig
- Bydd 100% o'n gweithwyr wedi cael hyfforddiant cynaliadwyedd a byddwn yn cynnwys sesiwn gloywi flynyddol fel rhan o'n pecyn hyfforddi safonol
- Bydd gennym gyfradd ailgylchu o 80%

## GWEITHGARWCH MASNACHOL

### Ein nod

Byddwn yn galluogi ac yn cefnogi ein partneriaid masnachol i fynd i'r afael â'u heriau cynaliadwyedd allweddol a sicrhau y gallwn ddarparu arlwy masnachol bywiog a chynaliadwy i'n holl ymwelwyr a staff.

### Beth ydyn ni wedi'i wneud hyd yma?

- Rydyn ni wedi lleihau gwastraff drwy ddefnyddio cynwysyddion bioddiraddiadwy ac ailgylchu gwastraff bwyd cegin
- Mae ein holl ddiodydd bar bellach yn cael eu gweini mewn cwpanau plastig y gellir eu hailddefnyddio sydd hefyd yn gwbl ailgylchadwy
- Rydyn ni wedi symud i weini diodydd o ganiau lle bo modd gan eu bod yn defnyddio llai o ynni i'w hailgylchu na gwydr
- Rydyn ni wedi gweithio gyda'n hunedau masnachol a'n stondinau dros dro i leihau plastigion untro a chynyddu didoli gwastraff
- Rydyn ni wedi gosod compostiwr bwyd diwydiannol ar y safle, sydd wedi lleihau ein casgliadau gwastraff a'r allyriadau cysylltiedig yn sylweddol

### Beth yw ein targedau nesaf?

Erbyn 2025:

- Bydd gostyngiad o 25% mewn gwastraff bwyd gan denantiaid masnachol a'n mannau gwerthu bwyd ein hunain
- Ein nod yw cyflwyno systemau ailgylchu arloesol newydd

## EIN CENHADAETH, GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD

Rydyn ni wedi ymrwymo i gynnal ein busnes mewn modd cyfrifol i ddiogelu ein gweithwyr, y cyhoedd a'r amgylchedd.

Fyddwn ni ddim yn defnyddio deunyddiau crai nac yn gwaredu gwastraff oni bai y gallwn wneud hynny mewn modd diogel ac amgylcheddol dderbyniol.

Byddwn yn ymdrechu i sicrhau gwelliant parhaus yn ein perfformiad amgylcheddol a chyflawni hyn drwy fesur, monitro ac adolygu yn rheolaidd.

Byddwn yn defnyddio dull ataliol o ymdrin â phryderon amgylcheddol.

Byddwn yn dylunio ac yn defnyddio technolegau a gweithdrefnau gweithredu amgylcheddol, yn paratoi ar gyfer argyfyngau ac yn gweithio i atal neu leihau rhyddhau gwastraff ac allyriadau niweidiol i'r aer, tir a dŵr.

## EIN DALIADAU

Rhaid darparu amgylchedd gwaith diogel ac iach i bob gweithiwr – ynghyd â hyfforddiant priodol ar y disgwyliadau, y sgiliau a'r technegau sydd eu hangen i gyflawni eu gwaith mewn modd cyfrifol.

Rhaid i bob tasg gael ei chyflawni gan ofalu am ein diogelwch a'n hiechyd ein hunain, ein cyd-weithwyr, contractwyr, ymwelwyr, cwsmeriaid a'r gymuned a'r amgylchedd rydyn ni'n gweithredu ynddynt.

Mae cyflawni ein hymrwymiad amgylcheddol:

- Yn gyfrifoldeb unigol – mae ymddwyn yn unol â'r cyfrifoldeb yma'n amod o gyflogaeth
- Yn gyfrifoldeb rheoli – mae gwneud hyn yn dda yn fesur pwysig o berfformiad rheolwyr

Mae'r datganiad polisi yma wedi'i ddatblygu a'i gymeradwyo gan ein tîm gweithredol a bydd yn cael ei rannu â'r holl weithwyr ar adeg eu cyflogi, yn rheolaidd (yn ôl yr angen) i atgoffa gweithwyr o'r amcanion, a phryd bynnag y caiff ei ddiwygio neu ei ddiweddaru. Caiff y polisi yma ei adolygu yn rheolaidd gan y Tîm Rheoli Amgylcheddol drwy'r broses adolygu trefniadau rheoli.

Mae'r adolygiadau rheolaidd yma'n gwerthuso'r polisi o ran natur, graddfa ac effeithiau amgylcheddol ein gweithrediadau a'n cynhyrchion.

Mae'r polisi yma ar gael i'r cyhoedd a phartïon eraill sydd â diddordeb ar gais.

**"Fel adeilad eiconig ym mhrifddinas Cymru, mae'n bwysig i ni ein bod ni'n hyrwyddo ein rhinweddau cynaliadwy ac yn dangos ein hymrwymiad i leihau ein hôl troed carbon... Mae defnyddio dull ataliol wrth fynd i'r afael â phryderon amgylcheddol yn hollbwysig i Ganolfan Mileniwm Cymru, gan sicrhau ein hymrwymiad parhaus i greu rhagolwg glanach a gwyrddach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru."**